Oedfa Y Ffordd
Thema: Ar y Ffordd gyda Duw

Agoriadol: Croeso i'n hoedfa arbennig, 'Ar y Ffordd gyda Duw.' Mae'r Beibl yn ein dysgu fod Duw ar hyd y canrifoedd wedi galw pobl i fentro allan ar daith anturus a newydd, gan ymddiried ynddo ef. Dyna fu hanes arweinwyr cynnar cenedl Israel, y proffwydi, Ioan Fedyddiwr, disgyblion a dilynwyr Iesu, yr Apostolion a llu o bobl eraill o gyfnod y Testament Newydd hyd heddiw.

Cofiwn hefyd fod Iesu wedi dweud mai ef yw'r 'Ffordd' at Dduw, ac fel 'Pobl y Ffordd' cafodd y Cristnogion cyntaf eu hadnabod. Yn ein gwasanaeth fe fyddwn yn gofyn beth oedd bod ar y ffordd gyda Duw yn ei olygu i'r bobl hyn, a beth allai olygu i eglwysi Cymru heddiw. Mae'n hen, hen daith ond eto mae'n daith gyfoes.

Gweddïwn: Arglwydd, gwyddom ein bod ar daith bob dydd, heb syniad pwy fyddwn yn ei gyfarfod na beth fydd yn ein disgwyl.

Gall fod yn daith hwylus neu'n daith rwystredig;
gall fod yn daith bleserus neu'n daith anodd;
gall fod yn daith obeithiol neu'n daith ofidus;
gall fod yn daith di-gyfeiriad neu'n daith a phen draw iddi.

Beth bynnag fydd ein taith, gad i ni weld y daw cymorth i ni o sylweddoli ein bod ar daith gyda thi.

Gad i ni deimlo dy fod yn gafael yn dynn yn ein llaw, yn cadw cwmni cyson i ni ac yn ein harwain i fannau lle yr wyt ti eisoes yn disgwyl amdanom.

Ein gweddi yw y byddi di'n gwmni ac yn arweinydd i ni drwy'r oedfa hon.

Gofynnwn yn enw'r un sydd yn dal i fod yn ffordd ddiogel atat Ti, Iesu Grist dy Fab a'n Harglwydd. **Amen**

Gadewch i ni ddarllen gyda'n gilydd fersiwn beibl.net o Weddi'r Arglwydd (ar y daflen/sgrin)

Ein Tad sydd yn y nefoedd,
'rŷm ni eisiau i dy enw di gael ei anrhydeddu.
'Rŷm ni eisiau i ti ddod i deyrnasu,
ac i'r cwbl sy'n dda yn dy olwg di
ddigwydd yma ar y ddaear fel mae'n digwydd yn y nefoedd.
Rho i ni ddigon o fwyd i'n cadw ni'n fyw heddiw.
Maddau i ni am bob dyled i ti,
yn union fel 'rŷm ni'n maddau
i'r rhai sydd mewn dyled i ni.
Cadw ni rhag syrthio pan fyddwn ni'n cael ein profi,
ac achub ni o afael y drwg.
Achos ti sy'n teyrnasu,
ti sydd â'r grym a'r gogoniant am byth. Amen

Emyn 1: 49 (Caneuon Ffydd) Jubilate, Jubilate .....

Darlleniad: Genesis 12: 1 – 9 (fersiwn beibl.net)

Cyflwynydd: Dwn i ddim amdanoch chi, ond fe fyddwn i wedi hoffi bod yn gleren/pry ar y wal yn clywed y sgwrs rhwng Abraham a Sara. Sgwn i os mai rhywbeth fel hyn oedd hi?

Sgets (2 berson - Abraham a Sara)	
A:	Um.....Sara.
S:	Abraham, ble ar y ddaear ti wedi bod? Rwy wedi bod yn chwilio amdanat ti ers amser. Mae ishe bwydo'r geifr 'ma', mae plant y gweision yn cam-bihafio ac mae'n rhaid cadw trefn ar y gweithwyr. Alla'i ddim gwneud popeth fy hunan.
A.	Sori.....cariad
S:	Paid â thrio seboni fi! Ti'n diflannu byth a beunydd dyddie 'ma, ac mae Haran yn dweud bod e'n clywed ti'n siarad â thi dy hunan mas ar y llethrau. Beth fyddai'r cymdogion yn meddwl tasen nhw'n dy glywed ti?
A:	Ond siarad gyda Duw fydda'i.
S:	Siarad gyda Duw?
A:	Ie, ac mae e'n siarad gyda fi.
S:	Duw yn siarad 'da ti! Dydw i ddim yn deall! Beth mae e'n dweud wrthyt ti?
A.	Mae gan Dduw gynlluniau mawr. Ond heddiw fe ddwedodd fod ef am i ni adael popeth a mynd o fan hyn.
S:	Gadael popeth! Mynd!.....Ond rym ni'n hapus fan hyn ac mae popeth sydd ei angen arnom yma. Siwt ar y ddaear allwn ni adael y cwbl.... a beth bynnag ble i ni'n mynd?
A:	Wel....um, galla'i ddim a dweud wrthyt ti ar hyn o bryd, achos dydw i ddim yn siŵr fy hunan.
S:	Ddim yn siŵr! Ond os nad wyt ti'n gwybod, pwy sydd! Gallwn ni byth a mynd heb wybod ble ni'n mynd.
A:	Mae Duw yn gwybod. A beth bynnag does dim rhaid poeni, dwedodd Duw fyddwn ni'n gwybod pan fyddwn ni'n cyrraedd 'na!

Cyflwynydd 1:	Wrth gwrs, o gofio arferion y cyfnod, gallai sgwrs o'r fath fyth fod wedi cymryd lle. Go brin fyddai unrhyw drafod wedi bod, byddai'n debycach i, 'Sara, casgla dy bethau rym ni'n mynd,' ac ni fyddai Sara wedi meiddio holi ymhellach. Ond mae'n werth dychmygu, pe bai ond er mwyn gwneud i ni feddwl beth oedd ynghlwm yn yr hyn roedd Abram yn teimlo bod rhaid iddo wneud.

Emyn 2: 685 (Caneuon ffydd) 'Brwydra bob dydd.....'

Cyflwynydd 2:	Roedd Abraham i adael ar ôl rhai o'r pethau pwysicaf yn ei fywyd.
Cyflwynydd 3:	'Dy wlad' - y tir roedd yn ei gynnal ac yn rhoi bywoliaeth iddo.
Cyflwynydd 4:	'Dy bobl' – nid yn unig perthynas cig a gwaed, ond yr holl gylchoedd o bobl roedd e'n perthyn iddyn nhw ac yn ymwneud a nhw o ddydd i ddydd.
Cyflwynydd 5:	'Dy deulu' – 'Tŷ dy dad' yn yr hen gyfieithiad Cymraeg. Cartref a gwreiddiau Abraham.
Cyflwynydd 1:	Dyma'r pethau oedd yn ganolog, yn rhoi ystyr i'w fywyd ac wedi ei wneud yr hyn ydoedd.
Cyflwynydd 2:	Tybed nad yw Duw yn ein galw ni, gapeli ac eglwysi Cymru, i adael rhai pethau ar ôl heddiw er mwyn mynd ar daith gydag Ef? Pethau rym ni, efallai, yn credu sy'n hanfodol i'n bodolaeth ni, ond a oes eu hangen mewn gwirionedd?
Cyflwynydd 3:	Adeiladau, trefniadau, credoau, arferion, traddodiadau neu ffordd arbennig o wneud pethau.
Cyflwynydd 4:	Beth am roi amser i'n hunain fel eglwysi i ystyried beth allai Duw fod yn gofyn i ni adael ar ôl heddiw?
Cyflwynydd 5:	Oes yna rywbeth sy'n ein clymu ni lawr neu yn ein caethiwo ni i'r sefyllfa bresennol, a sut allwn ni dorri rhydd oddi wrthyn nhw?
Cyflwynydd 6:	Oes yna rywbeth sy'n ein dal ni 'nol rhag bod yn gynulleidfaoedd cenhadol yn mynd a newydd da Iesu Grist i'r gymuned ehangach? Oes yna rywbeth sy'n ein rhwystro rhag bod yn wirioneddol yn bobl Dduw yn y byd? Oes yna rywbeth sy'n ein hatal rhag bod yn fendith i'r byd?
Cyflwynydd 7:	Wrth feddwl am y pethau hynny, efallai clywn ni lais Duw yn galw arnom i dorri'n rhydd a mynd ar daith newydd gydag Ef.

Grŵp i ganu Emyn 698 (Caneuon Ffydd)

Anfonodd Iesu fi
i'r byd i wneud ei waith
a gwneud yn siŵr y daw
ei deyrnas ef yn ffaith;
nid gwaith angylion yw
troi byd o boen a braw
yn fyd o gariad pur
a heddwch ar bob llaw;
Anfonodd Iesu fi
i wir ryddhau ei fyd,
O Dduw rho help i'm wneud d'ewyllys di o hyd.

Cyflwynydd 1:	Yn ogystal â gadael pethau ar ôl, roedd Abraham i fynd i'r man y dangosodd Duw iddo.
Cyflwynydd 2:	Ond, wedi dod i'r fan honno, gwlad yr addewid, dywedodd Duw wrtho, 'Dw i'n mynd i roi'r wlad hon i dy ddisgynyddion di.'
Cyflwynydd 3:	Ni chafodd Abraham feddiannu'r wlad, a bu ef a Sara yn byw ar grwydr am y gweddill o'u bywydau. Byth yn aros yn hir yn un man, byth yn bwrw gwreiddiau ond yn teithio ac yn symud i fannau newydd a gwahanol o hyd.
Cyflwynydd 4:	Mae'r awydd i aros yn yr unfan a bwrw gwreiddiau yn ddwfn yn y natur ddynol, ac mae bod yn sefydlog yn rhoi sicrwydd ac yn gwneud i ni deimlo'n saff. Ond cofiwn mai rheol natur yw bod pethau sydd ddim yn symud, ddim yn fyw. Mae dŵr llonydd yn fuan iawn yn troi'n ferw-ddŵr - dŵr marw. Yn yr un modd pan fyddwn ni, fel capeli a chymdeithasau o bobl Dduw, yn gwrthod symud, rym ni mewn perygl o golli bywiogrwydd ac yn y diwedd fe fyddwn farw.
Cyflwynydd 5:	Does dim aros i fod i bobl Dduw. Pobl ar daith ydym, yn symud ymlaen ac yn cadw ein golwg ar yr hyn sydd o'n blaenau.

Darlleniad: Hebreaid: 11: 8-10, 13 -16 (cyfieithiad beibl.net)

Chwarae'r gân: 'Ymlaen mae Canaan.' gan Steve Eaves (Ar y CD 'Moelyci')

Gweddïwn:

Arglwydd ein Duw, rwyt ti yn ein harwain ymlaen yn gyson -
rwyt ti am i ni fwynhau profiadau newydd ohonot a'th gariad,
rwyt ti am i ni gael dealltwriaeth ddyfnach o'th bwrpas,
rwyt ti am ddangos i ni'r hyn sy'n bosibl wrth fod ar daith gyda Thi.
Maddau i ni pan fyddwn yn gwrthod y cyfle i'th ddilyn i'r mannau lle'r wyt ti yn ein cyfeirio.
Helpa ni i gerdded ymlaen gyda Thi.

Fe'n gelwaist i daith arbennig -
i fyw yn hyderus fel dy bobl di,
i gadw dy orchmynion ac ufuddhau i'th ewyllys,
i ehangu ein gweledigaeth a dyfnhau ein ffydd,
i orlifo â chariad a bod yn frwd yn ein hymroddiad.
Maddau i ni pan fyddwn yn methu –
ein hanufudd-dod a'n ystyfnigrwydd,
ein culni a'n cyndynrwydd,
am fod yn arwynebol ac yn llugoer.
Helpa ni i gerdded ymlaen gyda Thi.

Fe anfonaist Iesu Grist i fod yn Ffordd, ac fe ddangosodd i ni'r gwir ffordd i fyw -
ffordd cariad a heddwch,
ffordd cyfiawnder a thrugaredd,
ffordd gwasanaeth ffyddlon,
ffordd ymwadu â'r hunan,
ffordd codi'r groes a'i ddilyn ef.
Maddau i ni am golli cyfeiriad a mynnu dilyn ein ffyrdd ein hunan.
Helpa ni i gerdded ymlaen gyda Thi.

Cryfha ein ffydd,
adfywia ein cariad,
ehanga ein gweledigaeth,
ac adfer ein penderfyniad,
er mwyn i ni allu mynd lle'r wyt ti yn ein harwain.
Dangos y ffordd o'r newydd i ni,
a rho i ni'r ymddiriedaeth i ddilyn,
gan hoeli ein sylw bob amser ar Iesu, yr un sy'n perffeithio ein ffydd ni.
Helpa ni i gerdded ymlaen gyda Thi.

Amen

Emyn 3 – 748 (Caneuon Ffydd) 'Ymlaen yr af dros wastad a serth....'

Cyflwynydd 1:	Wrth feddwl am Abraham ac eraill a fentrodd ar daith gyda Duw, eilbeth mewn gwirionedd yw 'pen-y-daith'.

Darlleniad: Marc 1: 14 – 20 (Galw'r disgyblion cyntaf)

Darlleniad: Luc 18: 18 -22 (Y dyn cyfoethog)

Cyflwynydd 2:	Nid yw Iesu yn dweud wrth y pysgotwyr na'r dyn cyfoethog i ble bydd y daith yn mynd a hwy. Gwahoddiad sydd ganddo i deithio gydag ef ac mae'n addo ei gwmni.

Cyflwynydd 3:	Ble bynnag mae Abraham yn mynd mae'n ymwybodol bod Duw yn ei gymell. Wrth deithio mae'n ymwybodol bod Duw yn cadw cwmni iddo ac yn ei arwain. Ac wedi cyrraedd rhywle mae'n ymwybodol fod Duw yno o'i flaen ac yn disgwyl amdano.

Cerdd: Detholiad o'r gerdd 'Gwreiddiau' gan Mererid Hopwood.

'Dere 'da fi i'r man rhwng nos a dydd,
lle mae'r haul a'r lloer yn wên,
lle mae serch y sêr yn llên,
lle dyw'r stori fyth yn hen.

'Dere 'da fi i'r man rhwng camau'r ddawns,
lle mae pob pluen yn gân,
lle mae'r mwswg yn felfed glân,
lle mae nghalon i yn dân,

'Dere 'da fi i'r man rhwng dau aeaf,
lle mae'r haf yn oedi'n hir,
at y darn rhwng yr awyr a'r tir,
lle mae'r gorwel yn gweld y gwir.

'Dere da fi i'r man
uwchlaw'r byd
i chwilio'r bwlch
sy'n nef i gyd.

Cyflwynydd 1:	Ie, Duw'r 'Dere' yw Duw Abraham. Yr un sy'n cymell, yn cadw cwmni, yn arwain ac yn disgwyl amdano.
Cyflwynydd 2:	A Duw'r 'Dere' yw ef o hyd. Dere i fannau newydd a diarth. Dere i afael mewn cyfleoedd na ddychmygaist di oedd yno. Dere i gyfeiriadau annelwig a chyffrous.
Cyflwynydd 3:	Dere i agor drws nad wyt wedi ei weld o'r blaen. Dere i wynebu her newydd. Dere i fentro i gyfeiriad diarth. Dere i gerdded ffordd wahanol. Dere i fod yn bobl Dduw heddiw. Dere i fod yn fendith i'r byd.

Cân – Grŵp i ganu emyn 800 (Caneuon Ffydd) 'Un cam bach ar hyd y byd yr af...'

Cyflwynydd 1:	Fel eglwysi'r Annibynwyr, mae bod ar daith gyda Duw wedi magu ystyr newydd a chyffrous. Mae gan yr Undeb gynllun newydd sbon, 'Y Ffordd', i helpu cryfhau ffydd a hyder yr eglwysi, fel eu bod yn gallu ymestyn mas i'w cymunedau a rhannu Newydd Da'r Efengyl i'r bobl sy'n byw yno.

Anerchiad byr yn egluro'r cynllun:

Os oes cyfle dangoswch ychydig o un o'r ffilmiau er mwyn rhoi blas o'r cynllun i'r gynulleidfa. Mae'r ffilmiau ar gael ar DVD neu i'w lawr lwytho o wefan yr Undeb. Gallech ddilyn hynny gyda un neu fwy o'r cwestiynau sydd wedi eu paratoi ar gyfer y ffilm.

Pethau y dylid eu pwysleisio am y cynllun:

***Cynhwysfawr** - dros 4 blynedd gyda 4 uned ymhob blwyddyn. Edrych ar y Beibl, ein Hanes a'i berthnasedd i heddiw, ein Tystiolaeth yng Nghymru ac yn fyd-eang, ein Gweithgarwch.*
***Gwahanol** – nid darlithoedd neu wersi ond ffilmiau byr, bachog a heriol a chwestiynau i bobl drafod a dadlau.*
***Ymarferol** – rhywbeth gall pob un gymryd rhan ynddo a chyfrannu iddo. Gweithgarwch ychwanegol a phob uned yn gorffen gyda'r cwestiwn, 'Beth allwn ni fel eglwys ei wneud yn dilyn y drafodaeth hon?*'
***Bywiogi** – Nod y cynllun yw meithrin ffydd a hyder o fewn yr eglwysi a'u galluogi i fod, yng ngeiriau CWM, yn 'gynulleidfaoedd cenhadol'.*

Pobl sy'n naturiol yn edrych allan, sy'n ymwybodol o gyfrifoldeb ehangach na chynnal yr achos, ac sy'n gallu cyfathrebu yn hyderus, yn ddealladwy, yn ystyrlon ac yn berthnasol gyda'r gymdeithas o'u cwmpas, gan gyflwyno newydd da Iesu Grist a byw ei weledigaeth ef o gyflawnder bywyd i'r holl greadigaeth.

Emyn 4 - 842 (Caneuon Ffydd)

Gweddïwn:

Diolch i Ti Arglwydd am gael ein tywys ar hyd ffyrdd addoliad heddiw. Wrth ddod i ddiwedd ein hoedfa, helpa ni weld fod gwir addoliad, nid mewn geiriau yn unig, ond wrth gerdded ffordd Iesu Grist bob dydd o'n bywyd er mwyn gwasanaethu eraill. Wrth i ni adael, gosod ein traed yn gadarn ar y ffordd honno, a gad i ni gerdded yn sicr gan ymddiried ynot ti i'n harwain ac i fod yn gwmnïaeth gyson ar y daith.

Dy fendith di yn Dad, Mab ac Ysbryd Glan a arhoso gyda ni ar ein taith. Amen